**CYPE(6)-01-23 - Papur i'w nodi 12**

Anfonwyd trwy e-bost at
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

20 Rhagfyr 2022

Annwyl aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg,

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 8 Rhagfyr - ymateb dilynol i gais am wybodaeth**

Diolch am y cyfle i gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ac ateb cwestiynau amdano yn y sesiwn dystiolaeth ar 8 Rhagfyr 2022. Rydyn ni'n deall bod gan y Pwyllgor gwestiynau ychwanegol a'i fod hefyd am roi'r cyfle inni ddarparu rhagor o wybodaeth mewn meysydd lle roedden ni'n brin o amser yn y sesiwn dystiolaeth. Diolch am y cyfle i roi rhagor o wybodaeth am ein gwaith.

Rydyn ni wedi strwythuro'r ymateb hwn o amgylch y cwestiynau a godwyd yn yr e-bost a dderbyniwyd gan Ddirprwy Glerc y Pwyllgor ddydd Llun 12 Rhagfyr.

***C: Pa mor barod ydych chi'n meddwl ydych chi ar gyfer bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen?***

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i 'ffyrdd o weithio' eisoes yn darparu fframwaith ar gyfer sut rydyn ni'n cyflawni ein swyddogaethau. Er nad ydyn ni'n gorfod bodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar hyn o bryd, mae ein rôl a'n gwaith yn gyson â'i nodau. Felly, rydyn ni wedi mabwysiadu ei egwyddorion yn wirfoddol ers i ni gael ein sefydlu. Wedi'r cyfan, mae'n naturiol i ni weithio fel hyn, o ystyried bod cynllunio addysg a chymwysterau'n gofyn am olwg hirdymor.

Mae ein hamcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn canolbwyntio ar ble gallwn ni gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar y nodau llesiant. Maen nhw'n cyfrannu at Gymru lewyrchus, gynaliadwy a chydnerth wrth gefnogi llesiant ein gweithwyr.

- **Amcan 1 Cenedlaethau'r Dyfodol: Cefnogi cyflogwyr**

Byddwn yn cysoni ein strategaethau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol ag anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol. Drwy adolygiadau'r sector galwedigaethol, byddwn ni'n sicrhau bod cymwysterau'n cefnogi datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae cyflogwyr yng Nghymru eu hangen – nawr ac yn y dyfodol.

- **Amcan 2 Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynnwys cymwysterau**

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Pan fyddwn ni’n comisiynu neu'n cyflwyno cymwysterau newydd, byddwn ni’n ystyried a oes budd mewn annog cyrff dyfarnu i ymgorffori gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy.

• **Amcan 3 Cenedlaethau’r Dyfodol: Cefnogi ein gweithlu**

Byddwn ni’n darparu amgylchedd gwaith, ac yn cefnogi diwylliant, sy'n annog ffyrdd iach o fyw a llesiant hirdymor i weithwyr.

• **Amcan 4 Cenedlaethau’r Dyfodol: Cydweithio**

Byddwn ni’n gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, i gefnogi'r system gymwysterau ac i ddefnyddio cyfleoedd i sicrhau mwy o effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd.

Gan ein bod eisoes yn mabwysiadu egwyddorion y Ddeddf yn wirfoddol ac yn cynnwys y ffyrdd o weithio yn ein dull o gyflawni ein swyddogaethau, rydyn ni’n teimlo ein bod ni wedi paratoi’n dda ar gyfer gorfod bodloni gofynion y Ddeddf yn ffurfiol. Rydyn ni’n cyhoeddi ein hamcanion a'n hadroddiadau cynnydd ar ein gwefan. Rydyn ni hefyd yn gweithio ar y cyd, oherwydd rydyn ni'n un rhan o'r system addysg gyfan yng Nghymru.

Er bod gennym ni lawer o’r sylfeini eisoes yn eu lle, rydyn ni’n gwybod y bydd angen gwaith ychwanegol dros y flwyddyn i ddod. Yn benodol, byddwn ni’n paratoi datganiad llesiant ac yn adolygu ein hamcanion i sicrhau ein bod ni’n cydymffurfio'n llawn â'r gofynion deddfwriaethol. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda’n Bwrdd i adolygu ein gweledigaeth 10 mlynedd bresennol ar gyfer y system gymwysterau gyda’r nod o ddatblygu gweledigaeth hyd yn oed yn fwy hirdymor, yn ymestyn i 20 mlynedd neu fwy.

Rydyn ni eisoes yn trafod â swyddfa’r Comisiynydd i sicrhau ein bod ni’n gallu cydymffurfio’n llawn â gofynion Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol ac mae gennym ni sesiwn wedi’i threfnu ym mis Ionawr lle bydd cynrychiolydd o swyddfa’r Comisiynydd yn cyflwyno i’n Bwrdd.

***C: Beth yw prif bwyntiau'r adroddiad blynyddol yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atyn nhw o ran sut rydych chi’n cyfrannu at, ac yn cefnogi, agenda Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru?***

Rydyn ni’n gwybod y bydd y sector addysg yn allweddol wrth helpu Cymru i gyrraedd y targedau uchelgeisiol sydd wedi’u nodi yn Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod gan gymwysterau a system gymwysterau Cymru ran bwysig i'w chwarae. I gefnogi hyn, ac i hyrwyddo'r opsiwn i ddysgwyr ddilyn cymwysterau yn eu dewis iaith, fe wnaethom ni gyhoeddi ein strategaeth Dewis i Bawb - sef strategaeth bum mlynedd sy'n nodi'n glir ein hymrwymiad i'r Gymraeg ac i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddysgwyr yng Nghymru.

Yn y strategaeth hon, rydyn ni’n nodi pedwar maes strategol:

- nodi a blaenoriaethu cymwysterau sydd i'w darparu yn Gymraeg
- cryfhau cymorth a chapasiti yn y system

- adolygu ein Grant Cymorth i'r Gymraeg, a
- gwella gwybodaeth i ddysgwyr, eu hysgolion a'u colegau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol yn y sector addysg i helpu i gyflawni nodau Cymraeg 2050. Yn fwy penodol, fel y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau nad ydyn nhw'n raddau yng Nghymru, mae gennym ni ddiddordeb yng nghyhoeddiad y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd, i'r graddau rydyn ni'n ei ragweld a gweithio tuag at farchnad gymwysterau sy'n ymateb i gynnydd mewn galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn adrodd ar y maes hwn o dan 'Deilliant Allweddol 4: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg'.

Rydyn ni'n credu y gallwn ni wneud cyfraniad, a'n bod ni'n gwneud cyfraniad, at nifer o ddeilliannau a thargedau Cymraeg 2050. Bydd ein gwaith i sicrhau ystod newydd o gymwysterau i asesu'r Gymraeg ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed; ein hymrwymiad i sicrhau cymwysterau dwyieithog i bobl ifanc 14-16 oed sy'n ymwneud â'r Cwricwlwm newydd i Gymru fel rhan o'n gwaith Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a chynyddu'r ystod o gymwysterau ôl-16 sydd ar gael yn ddwyieithog yn cael effaith sylweddol ar nodau Llywodraeth Cymru.

Er ein bod ar hyn o bryd wedi penderfynu creu dau gymhwyster TGAU Cymraeg penodol newydd ar gyfer dysgwyr mewn gwahanol leoliadau addysgol i gefnogi continwwm y Gymraeg, rydyn ni'n cydnabod y bydd angen i'r cymwysterau Cymraeg hynny addasu a newid i amgylchiadau'r dyfodol. Rydyn ni hefyd yn ystyried bod cyflwyno cymhwyster ychwanegol bach newydd i ymestyn a herio dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg sy'n barod i symud ymlaen ymhellach ac yn gyflymach yn eu sgiliau Cymraeg yn ddatblygiad cyffrous a phwysig.

Mae cynnydd yn y galw am gymwysterau cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i benderfyniadau polisi yn debygol o arwain at yr angen am arian grant ychwanegol i gyrff dyfarnu. Mae hyn yn rhywbeth y bydd angen ei gefnogi yn y cyllid y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu inni. Byddwn ni'n monitro'r galw am arian grant ac yn trafod anghenion cyllido gyda Llywodraeth Cymru.

Er ein bod ni'n gweithio gyda chyrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd hyfywedd masnachol cymwysterau mewn marchnad gymharol fach, yn ogystal â newidiadau i bolisi cymwysterau yn Lloegr, yn parhau i fod yn her i system gymwysterau Cymru.

Mae gennym ni amrywiaeth o ddulliau rheoleiddio a pholisi ar gael i ni, a bydd angen defnyddio pwerau caled a meddal os ydyn ni am gyrraedd ein nodau. P'un a yw cymwysterau yn rhai Gwneud-i-Gymru, wedi eu haddasu ar gyfer Cymru, neu eu mabwysiadu yng Nghymru, yn aml mae ffyrdd o fynd i'r afael â'r problemau, ond bydd angen ymdrech gydweithredol a phwrpasol ar draws y system addysg i wneud hynny.

Mae disgwyliadau mewn perthynas â'n rôl fel rheoleiddiwr yn newid ac mae mwy o ffocws a phwyslais ar reoli'r system gymwysterau yn agosach, y tu hwnt i reoleiddio'r farchnad ac

ymyrryd er mwyn atal neu fynd i'r afael â methiant y farchnad. Wrth i’r disgwyliadau hyn newid bydd gofyn am gyllid ac adnoddau ychwanegol os ydyn nhw am gael eu bodloni. Rydyn ni eisoes yn trafod gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'n hanghenion ariannu yn y dyfodol, a bydd rhai ohonyn nhw’n ddibynnol ar ganlyniad Adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol Llywodraeth Cymru.

Rydyn ni’n gobeithio y bydd mwy o ffocws ar ddarpariaeth Gymraeg, wedi'i sbarduno gan Fil Addysg y Gymraeg newydd a gwell cynllunio o fewn Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2022-2032, yn caniatáu amgylchedd ar gyfer nodi anghenion cymwysterau yn well y gallwn ni wedyn weithio i fynd i'r afael â nhw. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cydweithio a gwaith strategol i gyflawni'r targedau a nodir yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac, y tu hwnt i'r rheini, wrth gyflawni canlyniadau Cymraeg 2050. Mae hyn yn arbennig o wir am y sector ôl-16.

Er mwyn cynorthwyo cydweithredu a thargedu ymyriadau, yn ddiweddar fe wnaethom ni sefydlu ein Grŵp Rhanddeiliaid Cymraeg gyda chynrychiolwyr yn cynnwys colegau addysg bellach, ysgolion, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Estyn ac eraill i gydweithio i ystyried ffyrdd o gynyddu argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid allweddol, a chryfhau ein perthynas â nhw, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac, ar ôl ei sefydlu, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Yn olaf, mae cynyddu capasiti'r gweithlu a chadw dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn heriau systemig a fydd yn mynnu atebion cyfunol. Bydd y gwaith y mae'r Coleg yn ei wneud i gryfhau capasiti staffio drwy ei Gynllun Gweithredu ‘Tuag at Cymraeg 2050’, ymrwymiad diweddar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu dysgu Cymraeg i staff addysgu a Chynllun Gweithlu'r Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru yn hollbwysig yn hynny o beth. Rydyn ni’n edrych ymlaen at weithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg i fynd i’r afael â'r heriau hyn.

***C: Ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r gyllideb sydd ei hangen arnoch chi yn 2023-24 a pha mor hyderus ydych chi y bydd gennych chi ddigon o adnoddau i gyflawni eich amcanion?***

Rydyn ni’n cydnabod cyd-destun heriol y gyllideb fel y mae. Rydyn ni’n cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru am ein gofynion adnoddau ac mae’r trafodaethau hyn yn parhau.

Rydyn ni’n derbyn cyllid prosiect ar wahân ar gyfer ein gwaith ar Cymwys ar gyfer y dyfodol wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Bydd angen cynnal yr adnoddau ychwanegol hyn i gyflwyno'r diwygiadau hyn a chefnogi gweithredu'n gynnar - er enghraifft rhoi adnoddau i adolygiadau cyflym o'r cymwysterau newydd yn gynnar yn eu cylch oes. Mae angen cyllid arnom felly i barhau y tu hwnt i'r gostyngiad presennol mewn newid sylweddol yn 2025 ac i weld cynnydd bach mewn staffio. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried y cais hwn ac adlewyrchu'r pwysau ar  o ran codiadau cyflog.

Yn dibynnu ar ganlyniadau'r adolygiad o Gymwysterau Galwedigaethol ôl-16 a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac argymhellion ar gyfer Cymwysterau Cymru, bydd angen inni asesu'r

effaith ac unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i gyflawni'r rhain.  Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, wrth edrych ymhellach ymlaen, ei bod yn debygol y byddwn ni angen mwy o adnoddau gan fod y pwysau i ddatblygu a rheoleiddio cymwysterau Gwneud-i-Gymru yn debygol o gynyddu.

Rwy'n gobeithio y bydd y wybodaeth uchod yn helpu i gau unrhyw fylchau o'r sesiwn dystiolaeth ac os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â ni. Bydd copi o'n dogfen Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2022-27 gyda chi cyn gwyliau'r Nadolig. Diolch am eich cefnogaeth barhaus ac rwy'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Gyda diolch

David B Jones OBE DL
**Cadeirydd**

Philip Blaker
**Prif Weithredwr**